

PWYLLGOR CRAFFU BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES

(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

Aelodau sy'n Bresennol:

1 Chwefror 2024

Cadeirydd: **Cynghorydd R.Phillips**

Cynghorwyr: W.Carpenter, N.Goldup-John, J.Henton,
C.Lewis, R.Mizen, P.A.Rees, S.Renkes,
S.H.Reynolds a/ac R.W.Wood

**Aelodau
Cyfetholedig sy'n
Pleidleisio:** A. Amor, M.Caddick a/ac L.Newman

**Swyddogion sy'n
Bresennol** I.Guy, C.Millis, R.Crowhurst, C.Saunders,
M.Daley, D.Holder-Phillips, S.McCluskie,
L.Pain, A.Spooner-Cleverly, R.Samuel, J.
Davies, P.Williams a/ac A.Thomas

**Gwahoddedigion y
Cabinet:** Cynghorwyr J.Hurley, N.Jenkins a/ac C.Phillips

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd y byddai'r Pwyllgor yn craffu ar eitemau 7, 8 a 9 ac 13 ar Agenda Bwrdd y Cabinet.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Adam Amor – Eitem 8 – Personol, nad yw'n niweidiol. Cyfarwyddwr Busnes sy'n gwneud gwaith achlysurol i'r Gwasanaeth Ieuencid.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2023 fel cofnod gwir a chywir.

4. **DIWEDDARIAD YNGHYLCH Y CWRICWLWM I GYMRU**

Gofynnodd yr Aelodau a oedd data'n cael ei gadw mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed gan ysgolion wrth roi'r Cwricwlwm newydd i Gymru ar waith a gofynasant a oes unrhyw ysgolion ar ei hôl hi.

Cadarnhaodd swyddogion fod yr holl ysgolion â disgyblion hyd at flwyddyn 8 yn cynllunio ac yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru gyda phob plentyn yn symud tuag at y pedwar diben. Mae'r modd y mesurir cynnydd yn wahanol i'r ffordd y mesurwyd cynnydd yn flaenorol. Mae ysgolion yn datblygu dealltwriaeth gyffredin o sut olwg fydd ar gynnydd ac yn gweithredu dylunio o fewn fframwaith y cwricwlwm.

Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr Aelodau'r adroddiad.

5. **EFFAITH PRISIAU YNNI AR GYLLIDBAU YSGOLION**

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 15 yr adroddiad, gan gwestiynu'r amserlen ynghylch y gallu posib i osod paneli solar ffotofoltaidd mewn 14 o ysgolion. Holodd yr aelodau hefyd ynghylch y costau posib a fydd ynghlwm wrth hyn, faint o swyddi ychwanegol oedd eu hangen a sut y byddai'r gosodiad a'r swyddi ychwanegol yn cael eu hariannu.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cefnogi a Thrawsnewid, ar hyn o bryd, fod arolwg bwrdd gwaith wedi'i gynnal, gyda darpar ysgolion yn cael eu nodi oherwydd eu lleoliad a'r math o do sydd ganddynt. Mae'r gwaith yn cael ei wneud gan Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a gofynnir am ddiweddariad ac adroddir yn ôl wrth y pwyllgor am y cynnydd.

Nododd aelod cyfetholedig y camau lliniaru a grybwyllir yn yr adroddiad ond cwestiynodd a ellid edrych ymhellach ar fesuryddion a thaliadau sefydlog dyddiol. Bydd gan ysgolion ar fwy nag un safle sawl blwch mesurydd gydag amryfal ffioedd sefydlog.

Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Cefnogi a Thrawsnewid yn gofyn am eglurder ar y mater hwn gan gydweithwyr yng Nghyfarwyddiaeth yr Amgylchedd ac yn hysbysu'r pwyllgor hwn ynghylch y canfyddiadau.

Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr Aelodau'r adroddiad.

6. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Panel Ymgynghorol Sefydlog

Cyfeiriodd yr Aelodau at Atodiad 1 yr adroddiad a holwyd y weithdrefn ar gyfer recriwtio i'r pwyllgor, yn enwedig recriwtio cynrychiolydd sy'n anffyddiwr.

Cadarnhaodd swyddogion y gall gweithdrefnau recriwtio amrywio yn ôl Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog (CYS). Y nod yw sicrhau ystod eang o gynrychiolaeth o bob ffydd a chredo sy'n berthnasol i'r sir. Cysylltir â phrif swyddfeydd sefydliadau perthnasol i ofyn am gynrychiolydd gwir a chytbwys. Unwaith y bydd unigolyn yn cael ei nodi, cynhelir trafodaethau yn y CYS a gwneir penderfyniad grŵp ar addasrwydd, perthnasedd a phriodoldeb yr unigolyn. Gall recriwtio cynrychiolydd sy'n anffyddiwr fod yn fwy heriol ond mae'n ofynnol iddo gydymffurfio â Deddfwriaeth Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru. Cysylltir â sefydliadau a grwpiau anffyddiol dibynadwy i gyflwyno cynrychiolydd ac eir ati i archwilio hanes yr ymgeisydd.

Yn dilyn gwaith craffu, cefnogodd y pwyllgor yr argymhelliad i'w gyflwyno i Fwrdd y Cabinet.

Diweddariad ar y Gwasanaeth Ieuentid

Gofynnodd yr aelodau a oedd y gwasanaeth yn dal i brofi anawsterau wrth recriwtio gweithwyr ieuentid cymwys yn enwedig ar gyfer y gweithgareddau gwaith sesiynol. Cyfeiriodd yr Aelodau at dudalen 20 yr adroddiad a holwyd ynghylch lefel y cyfranogiad yn y clwb ieuentid cyfrwng Cymraeg cyntaf yn Nhrebannws.

Cadarnhaodd swyddogion fod cynnydd y clwb ieuentid cyfrwng Cymraeg yn Nhrebannws yn gadarnhaol. Mae 173 o gysylltiadau wedi bod o fewn Trebannws ac aelodaeth y clwb ar hyn o bryd yw 29 o fechgyn ac 16 o ferched. Cadarnhaodd swyddogion fod anawsterau

bob amser wrth recriwtio staff ond bod y sefyllfa ar y trywydd iawn ar hyn o bryd gyda dau glwb ieuenctid yn ailagor.

Nododd y Pennaeth Datblygu Addysg fod Castell-nedd Port Talbot mewn sefyllfa fwy cadarnhaol na rhai awdurdodau lleol eraill gan fod staff yn dewis gweithio yma oherwydd y safonau uchel. Nodwyd y gallai recriwtio barhau i fod yn broblem oherwydd natur y swydd ac mae hwn yn fater cenedlaethol. Roedd y ddwy don recriwtio flaenorol yn llwyddiannus ac mae clybiau wedi ailagor yn sgîl ailgyflogi pobl sy'n derbyn swyddi rhan-amser. Yn genedlaethol, mae'n anodd cyflawni'r disgwyliad o gael staff sesiynol â chymwysterau lefel uchel.

Croesawodd y Cadeirydd y clwb ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn Nhrebannws gan nodi'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud i'r gymuned a diolchodd i'r holl staff. Gofynnodd y Cadeirydd a oes unrhyw gynlluniau ar gyfer grwpiau ieuenctid Cymraeg pellach yn y sir.

Cadarnhaodd swyddogion fod y clwb diwethaf a agorwyd wedi'i ariannu'n allanol, ac y byddai angen cyllid a staff ychwanegol er mwyn gallu agor rhagor o glybiau. Nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â datblygiad cyffredinol Cymru gyda digwyddiad dathlu'n cael ei gynnal y llynedd ac ymweliad â Llangrannog i bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg, ond mae angen cyllid ychwanegol yn y tymor hir.

Cadarnhaodd y Pennaeth Datblygu Addysg fod y gwasanaeth ieuenctid wedi cysylltu â Bronwen Lewis sy'n cefnogi datblygiad cerddorol yn y Gymraeg.

Holodd yr aelodau a oedd unrhyw glybiau dwyieithog yn y sir.

Cadarnhaodd swyddogion, mewn perthynas â , fod staff yn darparu un sesiwn/digwyddiad cynyddu ymwybyddiaeth cyfrwng Cymraeg y mis yng Nghlwb Ieuenctid Glyn-nedd, a gall hyn gynnwys gemau a chwisiau am dreftadaeth a diwylliant Cymru. Mae pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn y grŵp yn rhoi cymorth gyda'r sesiynau sy'n grymuso'r bobl ifanc.

Yn dilyn craffu, nododd y pwyllgor yr adroddiad.

Diweddariad ar y Gyllideb Teithio Personol - Trafnidiaeth

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cefnogi a Thrawsnewid wrth yr Aelodau mai adroddiad diweddar oedd hwn yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i Fwrdd y Cabinet ym mis Mai 2023 yn gofyn am ganiatâd i roi'r gyllideb deithio bersonol ar waith.

Dywedodd yr Aelodau fod rhai cwestiynau wedi'u codi gyda'r gwasanaeth cyn y cyfarfod, a rhoddwyd cadarnhad fod defnyddwyr wedi cael eu dewis ar gyfer y gyllideb deithio bersonol lle nad oes llwybrau teithio amgen ar gael ac i ddileu teithiau un person yn unig. Holodd yr aelodau pa weithdrefn a ddilynwyd os nad oedd llwybr teithio amgen ar gael ond nid oedd teuluoedd am gael cyllideb deithio bersonol.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth fod gan yr awdurdod ddyletswydd i sicrhau bod y dulliau teithio mwyaf cost effeithiol yn cael eu darparu, gan ystyried anghenion y plentyn a'r teulu. Os nad oes llwybrau teithio amgen ar gael, cynigir y gyllideb deithio bersonol i rieni, a darperir cymorth ar sut y gellir defnyddio'r gyllideb; rhag ofn y bydd anawsterau, mae swyddogion yn gweithio gyda theuluoedd i nodi atebion. Nodwyd bod y gyllideb deithio bersonol yn drefniant hyblyg sy'n gweithio i'r mwyafrif o deuluoedd.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw blentyn wedi cael anhawster cyrraedd yr ysgol, gan effeithio ar eu presenoldeb.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth mai'r llwyth gwaith mwyaf ar gyfer y gwasanaeth oedd gan deuluoedd nad ydynt yn gymwys i gael cymorth teithio, yn hytrach nag anawsterau gyda'r gyllideb deithio bersonol.

Dywedodd y Rheolwr Cludiant Addysg wrth yr Aelodau y gall rhieni ofyn am adolygiad ffurfiol o addasrwydd y cynnig teithio a dderbyniwyd ar ffurf apêl.

Holodd yr Aelodau faint o deuluoedd sydd wedi derbyn cyllideb trafndiaeth bersonol.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth fod 51 o deuluoedd wedi derbyn cyllideb deithio bersonol ar adeg yr adroddiad, lle byddai disgyblion fel arall yn cael eu cludo'n unigol mewn tacsï gan nad oedd dewis arall ar gael. Mae gwaith yn mynd rhagddo ac mae 17 o ddisgyblion eraill yn cael eu cludo'n unigol mewn tacsï ar hyn o bryd lle gallai fod yn addas trosglwyddo i gyllideb deithio bersonol.

Yn dilyn craffu, nododd y pwyllgor yr adroddiad.

7. **COFNOD GWEITHREDU'R PWYLLGOR**

Nodwyd Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor.

8. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Mewn perthynas â'r adroddiad diweddarau ynghylch presenoldeb disgyblion a drefnwyd ar gyfer 14 Mawrth, gofynnodd yr aelodau a ellid dosbarthu adroddiad arolygu thematig gan Estyn.

Cadarnhaodd y Pennaeth Datblygu Addysg y byddai adroddiad Estyn yn cael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

9. **EITEMAU BRYD**

Nid oedd unrhyw eitemau bryd.

10. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Penderfynwyd: bod y cyhoedd yn cael eu gwaharddo'r eitem(au) ganlynol/canlynol yn unol ag Adran 100a (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

11. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Sefydliad Brenhinol y Bad Achub Cenedlaethol

Yn dilyn craffu, cefnogodd yr Aelodau'r argymhelliad gyda'r ychwanegiad 'fod goruchwyliaeth yn cael ei ehangu i 8.00pm gyda'r nos i sicrhau diogelwch wrth iddi nosi.'

**Cynghorydd R.Phillips
CADEIRYDD**